

Teithiau Tanfor



Nant Gwrtheyrn



Teithiau llong danfor i waelod y môr
Golygfeydd godidog Profiad bythgofiadwy

Mai – Hydref / Mercher – Sadwrn

01758 523476 www.ttng.cym



Bore da, bawb,
ac ar ran Teithiau Tanfor Nant
Gwrtheyrn
mae`n bleser gynna i
estyn **croeso cynnes** iawn
i chi i gyd yma bore`ma
ar fwrdd ein llong danfor newydd,
Ysbryd Enlli.

Menna Macrell **dw i,**
a fi fydd yn **gofalu amdanoch chi**
yn ystod ein taith
i waelod y môr.

*dw i, rwyf ti, mae o/e, mae hi,
dyn ni, dych chi, maen nhw*



Byddwn ni`n cychwyn deifio
ymhen rhyw bum munud,
felly
ga i ofyn yn garedig i chi droi
pob teclyn electronig i ffwrdd,
os gwelwch yn dda,
cau`ch gwregysau diogelwch,
a sicrhau bod eich seddi
a`ch byrddau
yn y safle **syth i fyny.**

*bydda i, byddi di, bydd o/e, bydd hi
byddwn ni, byddwch chi, byddan nhw*

Cofiwch ddilyn
y rheolau iechyd a diogelwch
tra byddwn ni **o dan y môr**,
yn enwedig y ddwy bwysicaf,
sef
dim 'smygu
a **dim agor y ffenestri**.

Mae taflen iechyd a diogelwch
o dan eich seddi
a dyn ni'n gofyn yn garedig
i bob teithiwr ei darllen hi
yn ofalus
os gwelwch yn dda.

Tasai rhywbeth
yn digwydd mynd o'i le
yn ystod ein taith
mae podiau dianc i'w cael
fan hyn, fan hyn a fan hyn.
Mae'r toiledau
yn y cefn **ar y chwith**
ac yn y blaen **ar y dde**.

Bydd ein taith i waelod y môr
yn cymryd tua dwy awr
a **byddwn ni'n gweini** diodydd
a lluniaeth ysgafn
ymhen rhyw awr.





O ran adloniant yn ystod y daith
tra'ch bod chi'n **mwynhau**
y golygfeydd godidog
o dan y môr
mae modd i chi wrando
trwy'ch clustffonau
ar un o straeon gwerin **mwyaf enwog**
Pen Llŷn,
sef
"Manawydan a'r Cnocio Melltigedig".

Dyn ni'n barod i fynd felly.
Ar ran Teithiau Tanfor Nant Gwrtheyrn
hoffwn i unwaith eto **ddymuno**
siwrnai bleserus iawn i chi.

Gobeithio y bydd hi'n
brofiad **bythgofiadwy** i chi
a gobeithio, hefyd
y **gnewch chi** fwynhau stori
"Manawydan a'r Cnocio Melltigedig".

*(g)wna i, (g)wnei di, (g)wneith o/e, (g)wneith hi,
(g)wnawn ni, (g)wnewch chi, (g)wnân nhw*

Manawydan a'r Cnocio Mellfigedig



Chwedl o Ben Llŷn

"Manawydan a'r Cnocio Melltgedig"

Un tro, amser maith, maith yn ôl
ymhell, bell **o dan y môr**
oddi ar Ynys Enlli,
ryw **hanner ffordd** rhwng
lle mae Cymru ac Iwerddon heddiw,
roedd teyrnas o`r enw Maes Heli.

*(R)ôn i, (r)oedd et ti, (r)oedd o/e, (r)oedd hi,
(r)oedden ni, (r)oeddech chi, (r)oedden nhw*

Maes Heli **oedd y** deyrnas **harddaf**
o holl deyrnasoedd tanfor y byd.
Roedd pawb yn meddwl hynny,
hyd yn oed trigolion teyrnasoedd eraill.



Roedd pob math o bethau hardd
i`w gweld
ym Maes Heli,
golygfeydd naturiol **godidog**
oedd yn cynnwys
coedwigoedd tanddwr
â`u canghennau`n suo i symudiad y môr,
mynyddoedd serth, dramatig
yn codi`n ddisymwth o wely`r môr
ac **ogofau** dwfn, tywyll
yn arwain **i lawr ac i lawr**
i grombil y ddaear.

Ond **y lle harddaf** yn y deyrnas i gyd
oedd y brif ddinas, Caer Heli.

Roedd Caer Heli yn lle **lliwgar iawn**,
yn wir roedd o'n wledd o liwiau a siapiau.

Roedd y tai tanfor yno i gyd
wedi'u hadeiladu o gregyn sgleiniog
a chwrel o bob lliw a llun,
rhai pinc a melyn a glas ac oren.

Roedd gan y tai i gyd
fffenestri llydan, braf
gyda **golygfeydd godidog**
yn edrych allan
dros y gerddi toreithiog
oedd i'w gweld o flaen pob tŷ.



Roedd trigolion Caer Heli
yn falch iawn o`u gerddi
ac yn treulio **llawer o amser**
yn gweithio yn yr ardd
bob noson o`r wythnos
ac ar y penwythnosau hefyd.

Roedd Caer Heli yn lle gwastad iawn
heblaw am un bryn uchel
reit **yng nghanol y ddinas**.

Ar y bryn yma roedd castell moethus
ac yn y **castell moethus**
roedd llys moethus.



Roedd gan y llys **ffnestri llydan, braf**
gyda **golygfeydd godidog**
yn edrych allan
dros y ddinas hardd
oddi tanodd.

Yn y llys roedd gorsedd gain
wedi'i gwneud allan o **berlau mân**
a grisialau.

A phwy oedd yn eistedd ar yr orsedd?
Wel, neb llai na Manawydan, Brenin Maes Heli.

Un noson **roedd Manawydan yn eistedd**
ar yr orsedd
yn **edrych ar y teledu**.

Roedd o **newydd ddechrau**
gwyllo rhaglen olaf
cystadleuaeth **Cerddor Tanddwr y Flwyddyn**
(ei hoff raglen deledu)
pan **yn sydyn iawn**
dyma fo'n clywed **sŵn cnocio uchel**
ar ddrws y llys.



"**Dyna beth od!**" meddyliodd Manawydan.

"Mae hi`n **Nos Wener** heno

ac **mae** holl staff y llys

wedi cael y noson i ffwrdd

i fynd i dddawns

yng nghlwb nos `Morfil o Amser`.

Dw i`n siwr bod neb tu allan

yn cnocio

yr amser yma o`r nos.

Mae`n rhaid mai dim ond **sŵn y tonnau**

oedd hi

yn taro`n erbyn y drws."

*dw i wedi, (r)wyt ti wedi, mae o/e wedi, mae hi wedi,
dyn ni wedi, dych chi wedi, maen nhw wedi*

Ac felly,

heb feddwl mwy am y peth

nôl ag o i wylio`r rhaglen.



Ymhen rhyw **chwarter awr**,
fodd bynnag,
dyma fo`n clywed
sŵn cnocio uchel unwaith eto
ar ddrws y llys.

"**Be` oedd hynny?**" meddyliodd Manawydan.
"Sŵn rhywun yn cnocio ar ddrws y llys?
Well i mi fynd i weld pwy sy`na."

*well i mi, well i ti, well iddo fo/fe, well iddi hi,
well i ni, well i chi, well iddyn nhw*

A dyma Manawydan yn cerdded draw
at ddrws y llys.
Roedd o **ar fin agor** y drws
pan feddyliodd o :

"Mae hi`n Nos Wener heno
ac mae holl staff y llys
wedi cael y noson i ffwrdd
i fynd i dddawns
yng nghlwb nos `Morfil o Amser`.
Mae hi`n annhebygol iawn
bod neb tu allan
yn cnocio
yr amser yma o`r nos.
Mae`n siwr mai **dim ond** sŵn y tonnau
oedd hi
yn taro`n erbyn y drws."



A **nôl ag o** at ei orsedd
i wyllo gweddill y rhaglen.

Yna, ymhen rhyw **chwarter awr**,
pan oeddd y rhaglen
tua **hanner ffordd** drwodd
a Manywadan **wedi llwyr ymgolli** ynddi,
dyma fo`n clywed sŵn cnocio uchel
unwaith eto
ar ddrws y llys.

"Be` oedd hynny?" meddylodd Manawydan.
"**Sŵn rhywun yn cnocio** ar ddrws y llys?
Well i mi fynd i weld pwy sy`na."

A dyma fo`n **cerdded draw**
at ddrws y llys.
Roedd o ar fin agor y drws
pan feddylodd o :

"Mae hi`n Nos Wener **heno**
ac mae **holl staff y llys**
wedi cael y noson i ffwrdd
i fynd i ddawns
yng nghlwb nos `Morfil o Amser`.
'Sw'n i ddim yn meddwl
bod neb **tu allan**
yn cnocio
yr amser yma o`r nos.
Mae`n bosib mai
dim ond sŵn y tonnau oedd hi
yn taro`n erbyn y drws.
Ond **well i mi wneud yn siwr**, rhag ofn."

*Baswn i, baset ti, base fo, base hi,
basen ni, basech chi, basen nhw*

*Byddwn i, byddet ti, bydde fe, bydde hi,
bydden ni, byddech chi, bydden nhw*

A dyma fo`n galw allan
mewn **llais uchel, byddarol**
"**Oes rhywun yna?**"

Dim ateb.

"**Neb yna, felly**" meddyliodd Manawydan
A nôl ag o i wylio **gweddill y rhaglen.**



Pan oedd y rhaglen yn nesu at
ei huchafbwynt
a Manawydan **ar bigau`r draen**
isio gwybod
pwy oedd wedi ennill
cystadleuaeth Cerddor Tanddwr y Flwyddyn
dyma fo`n clywed sŵn cnocio uchel
unwaith eto
ar ddrws y llys.

*(R)ôn i wedi, (r)oeddet ti wedi, (r)oedd o/e wedi, (r)oedd
hi wedi, (r)oedden ni wedi, (r)oeddech chi wedi, (r)oedden
nhw wedi*

"**Be` gebyst!**" meddai Manawydan,
wedi colli`i amynedd yn llwyr
erbyn hyn.


"**Dw i`n siwr** y tro`ma
bod **rhywun** y tu allan
yn cnocio
ar ddrws y llys."

A dyma fo`n cerdded draw
yn flin iawn
at ddrws y llys
a`i agor o
yn chwyrn.

"**Noswaith dda**" meddai`r pennog
oedd wrth y drws.
"**Chi`di** perchennog y castell`ma?"

"**Am gwestiwn gwirion!**"
meddai Manawydan
"**Wrth gwrs** mai **fi`di`r** perchennog.
Fi`di`r brenin.
Pwy wyt ti?
A **be`gebyst** wyt ti`n neud
yn cnocio
ar ddrws fy llys i
pan dw i`n trio gwyllo
fy hoff raglen deledu?"

"**Gadewch i mi** gyflwyno fy hun.
Cefin Ap Hefin dw i,
perchennog cwmni *Ffenestri Ap Hefin Cyf.*
Dyma fy ngherdyn busnes."



Cefin Ap Hefin o Fae Nefyn

Darllenodd Manawydan y cerdyn :
Cefin Ap Hefin (Perchennog)
Ffenestri Ap Hefin Cyf.,
Trem Y Tir,
Bae Nefyn,
(oddi ar Ben Llŷn)
LL555 34M
01758 233987

“Roedden ni yn yr ardal

a, digwydd bod,

mae gynnon ni gynnig arbennig **ymlaen**
ar hyn o bryd

ar fodel newydd o ffenestri dwbl -
dau am bris un.

Dw i`n gweld bod gynnoch chi

ffenestri llydan, braf

yn eich castell

- a llawer iawn **ohonyn nhw** hefyd-

gyda **golygfeydd godidog**

dros y ddinas

oddi tanodd.”

mae gynna i, mae gen ti, mae gynno fo, mae gynni hi,
mae gynnon ni, mae gynnoch chi, mae gynnyn nhw

mae(gy)da fi, ti, fe, hi, ni, chi, nhw

ohono i, ohonot ti, ohono fo/fe, ohoni hi,
ohonon ni, ohonoch chi, ohonyn nhw

“Ie, wel?” meddai Manawydan yn swrth.

“Wel, **os maddeuwch i mi ddeud,**

mae`n amlwg eu bod nhw

wedi bod gynnoch chi

ers blwyddyn neu ddwy.

O edrych ar y ffenestri

sy` gynnoch chi

ar hyn o bryd

dw i`n meddwl

y base`n model newydd ni

yn berffaith

ar gyfer eich cartref chi.”

"**Dim diolch,**" meddai Manawydan.

"Does gynna i ddim diddordeb
yn dy gynnig di.

Dw i`n hollol fodlon efo`r ffenestri
sy`gynna i.

Does dim pwynt newid
dim ond er mwyn newid.

Rwan, **os ca i,**
hoffwn i fynd nôl at fy rhaglen.

Byddan nhw`n cyhoeddi
enillydd cystadleuaeth Cerddor Tanddwr
Y Flwyddyn **cyn bo hir.**
Nos da."

A dyma Manawydan yn **cau`r drws yn glep**
ar Cefin Ap Hefin
a mynd nôl at ei orsedd
i wyllo **diwedd ei raglen.**



Ond **pan oedd o** ar fin eistedd i lawr
dyma fo`n clywed
sŵn cnocio uchel
unwaith eto
ar ddrws y llys.

"Reit," meddai Manawydan.

"**Dyna fo.**

Dw i wedi cael llond bol

ar yr holl gnocio melltigatedig`ma.

Y cyfan ôn i isio

oedd rhyw awr neu ddwy o lonydd

ar Nos Wener fel hyn

i fwynhau

fy hofff raglen deledu.

Mae`r pennog bach dig`wilydd`na

wedi fy ngwthio i`n **rhy bell**

heno."

A dyma Manawydan

yn gafael yn ei dryfer,

yn rhuthro draw at ddrws y llys

a`i agor o


yn chwyrn.



Roedd o ar fin
rhoi proc go hegar
gyda`i dryfer
i Cefin Ap Hefin
i`w ddanfon o ar ei ffordd
pan **sylweddolodd o**
nad Cefin Ap Hefin (o Fae Nefyn)
oedd yna
ond criw o blant ac un oedolyn.

"Pwy dach chi?"
gofynnodd Manawydan mew sioc.

"Cerddorfa leuenctid Caer Heli"
meddai`r oedolyn oedd efo`r plant.



"Sliwan Eigion dw i,
yr arweinydd.

Mae gynnon ni broblem

ac **mi fasen ni`n** ddiolchgar iawn

tasech chi`n medru`n helpu ni.

Mi oedden ni`n gwyllo ffeinal
cystadleuaeth Cerddor Tanddwr Y Flwyddyn

(**ein hoff raglen deledu ni**)

i lawr yn y clwb ieuenctid jest rwan

pan, yn sydyn iawn,

dyma`r teledu`n ffrwydro."



"**Mae pawb yn gwybod**, wrh gwrs, mai
cystadleuaeth Cerddor Tanddwr Y Flwyddyn
ydi`ch hoff raglen deledu chithau.

Fase hi`n bosib i ni i gyd

ddod i mewn

i wyllo`r diweddglo gyda chi,

os gwelwch yn dda?"


"Wel, ym"
meddai Manawydan.

"O diolch syr"
meddai un corgimwch bach.
"Chi ydi'r brenin **mwyaf caredig**
o holl frenhinoedd tanddwr y byd.
Mae pawb yn meddwl hynny,
hyd yn oed trigolion teyrnasoedd eraill."

A chyn i Manawydan fedru dweud
dim byd arall
rhuthrodd y gerddorfa i gyd i mewn i'r llys
ac eistedd i lawr
o gwmpas ei orsedd.



"**Maen nhw** ar fin cyhoeddi enw'r enillydd"
gwaeddodd un morfarch bach
oedd wedi cyffroi i gyd.



Caeodd Manawydan ddrws y llys
yn gyflym
a rhuthro draw
i eistedd ar ei orsedd
(ar ôl rhoi ei dryfer heibio
mewn lle diogel,
wrth gwrs).

"Ac rwan"
meddai **cyflwynydd y rhaglen**
mewn llais byrlymus iawn.
"yr eiliad dyn ni i gyd
wedi bod yn **aros amdani**
enillydd
cystadleuaeth Cerddor Tanddwr Y Flwyddyn
dwy fil ac undeg pedwar **ydi**.....".

A`r noson honno,
gan fod **holl staff y llys**
wedi cael y noson i ffwrdd
i fynd i dddawns
yng nghlwb nos `Morfil o Amser`
aeth Manawydan ei hun
a`r gerddorfa ieuencid i gyd
i`r gegin frenhinol
i baratoi gwledd swmpus
iddyn nhw eu hunain.

*es i, est ti, aeth o/e, aeth hi,
aethon ni, aethoch chi, aethon nhw*

Ac **yn ôl y chwedl**,
Noson **Cerddor Tanddwr Y Flwyddyn 2014**
oedd y Noson Cerddor Tanddwr Y Flwyddyn
fwyaf bythgofiadwy erioed.
Roedd **trigolion teyrnasoedd eraill**
yn meddwl hynny,
roedd aelodau
Cerddorfa Ieuencid Maes Heli
yn meddwl hynny -
yn wir, **roedd pawb**
yn meddwl hynny -
hyd yn oed Manawydan,
Brenin Maes Heli.

Y Diwedd

Morfil o Amser

Clwb Nos Gorau Caer Heli

Dawnsio frwy`r nos
Staff cyfeillgar
Digon o hwyl a sbri

01758 331289

www.morfiloamser.cym

